


PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL - CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 13:00 – 16:00

 12 Mai 2022

 MS Teams

Cadeirydd	Rowan Gardner
-----------	---------------

Yn Bresennol (Aelodau)	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Rowan Gardner	RG	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Selway	DS	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Yn bresennol	Blaenlythrennau	Teitl	Sefydliad
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carwyn Lloyd-Jones	CLJ	Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rachael Powell	RP	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Gareth Davies	GD	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Keith Reeves	KR	Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Paul Evans	PE	Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol Dros Dro	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carys Richards	CR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Cora Suckley	CS	Rheolwr Gwasanaethau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Rob Jones	RJ	Prif Bensaer	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio Perfformiad (Iechyd)	Archwilio Cymru
Martin Williams	MW	Arweinydd Gwybodaeth Busnes a Dadansoddeg Iechyd, yn arsylwi gyda Rachael Powell	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Ymddiheuriadau	Teitl	Sefydliad
Rhidian Hurle	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Darren Lloyd	Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ifan Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
David Sheard	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaethau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Acronymau			
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DG&S	Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
DHCW	Iechyd a Gofal Digidol Cymru		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Gweithred i'w Chofnodi
---------------	-------	-----------	------------------------

Cofnodion wedi'u cadarnhau ar gyfer y:
Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol 12 Mai 2022

RHAN 1 — MATERION RHAGARWEINIOL

1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd Rowan Gardner (RG), Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol (DG&S) bawb i ail gyfarfod pwyllgor DG&S y flwyddyn ac estynnodd groeso ychwanegol i Gareth Davis (GD), Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau sy'n mynychu ei gyfarfod pwyllgor cyntaf, a Nathan Couch o Archwilio Cymru a oedd yn arsylwi.</p> <p>Nododd Rachael Powell (RP), Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodaeth, Deallusrwydd ac Ymchwil fod Martin Williams, Arweinydd Gwybodaeth Busnes a Dadansoddeg Iechyd hefyd yn bresennol i arsylwi.</p> <p>Tynnodd RG sylw at y ffaith mai hwn oedd y cyfarfod pwyllgor cyntaf a oedd ar gael i aelodau'r cyhoedd ei weld ac y byddai'n cael ei recordio a'i gyhoeddi ar wefan DHCW.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Darren Lloyd, Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth • Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth • David Sheard, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trawsnewid Gwasanaethau 	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nid wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.4	<p>Materion sy'n Codi</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
<p>RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO</p> <p>Nododd RG na chodwyd unrhyw faterion yn ymwneud ag eitemau o'r agenda gydsynio gyda hi cyn y cyfarfod.</p>			
2.1	<p>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddus • Crynodeb preifat <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol:</p>	Cymeradwyd	Dim i'w nodi

	Gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a chytunwyd eu bod yn gofnodion cywir ac nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau pellach arnynt.		
2.2	<p>Adroddiad Archwilio Mewnol 'Prosiect symud canolfan ddata DHCW - a'r sefyllfa bresennol o ran canolfannau data'</p> <p>Nododd Davis Selway (DS) , Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol fod prosiect symud y ganolfan ddata wedi'i gyflawni'n dda a llongyfarchodd y tîm ar waith rhagorol.</p> <p>Cytunodd RG i nodi bod y cyflawnwyd y prosiect yn brydlon gan reoli llawer o risg a nododd fod dogfennau'r prosiect ar gael ar wefan DHCW os oes unrhyw un yn dymuno eu gweld.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Adroddiad Archwilio Mewnol 'Prosiect symud canolfan ddata DHCW a chanlyniad archwilio sicrwydd sylweddol'</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	<p>Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 - PRIF AGENDA			
3.1	<p>Cofnodion Gweithredu</p> <p>Roedd 3 cham gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ac mae pob un ohonynt wedi'u cwblhau.</p> <p>Gwnaeth DS sylw ar gam gweithredu 2021115-A04; cylch gwaith DHCW o ran data Gofal Cymdeithasol, gan nodi y dylid ychwanegu crynodeb byr o'r canlyniad at y cofnodion cyn cau'r cam gweithredu.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod y Cofnodion Gweithredu.</p>	Trafodwyd	CD i fynd ar drywydd hyn gyda Darren Lloyd i ychwanegu rhagor o fanylion at gam gweithredu 2021115-A04 cyn iddo gau.
3.2	<p>Blaengynllun Gwaith</p> <p>Cyflwynodd Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd, y Blaengynllun Gwaith gan nodi bod nifer o eitemau wedi mynd rhagddynt ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor oherwydd cyfarfod cynllunio agenda gydag ef ei hun, RG a Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.</p> <p>Nodwyd bod y polisi Eiddo Deallusol (IP) wedi'i drefnu i ddychwelyd ar ôl y cyfarfod diwethaf, ond mae gwaith pellach</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi

	<p>wedi'i nodi ac felly bydd yn dychwelyd unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau.</p> <p>I aelodau'r cyhoedd sy'n gwyllo'r cyfarfod heddiw, mae RG yn esbonio natur y Blaengynllun Gwaith a sut y mae'n llywio eitemau agenda yn y dyfodol yn seiliedig ar waith arfaethedig DHCW sy'n rhan o gylch gwaith y pwyllgor hwn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod y Blaengynllun Gwaith</p>		
3.3	<p>Diweddariad Strategaeth Ymchwil ac Arloesi</p> <p>Cyflwynodd RP ddiweddariad ar y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi a dywedodd ei fod wedi dod i'r amlwg o'r cyfarfod cynllunio uchod gydag aelodau'r pwyllgor a nododd yr eitem fel eitem nodedig ar yr agenda.</p> <p>Nododd RP fod y strategaeth yn ei chymhysu a bod cyfarfod yn cael ei gynnal rhyngddi hi a CD i ddatblygu cynllun ymgysylltu mwy ffurfiol yn ymwneud â'r gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn i'r strategaeth gael ei chyflwyno i'r pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.</p> <p>Ychwanegodd RP fod sail y strategaeth newydd yn ymwneud ag amcanion DHCW a swyddogaeth Ymchwil ac Arloesi a fyddai'n cael ei chynnwys yn y tîm. Byddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu datblygu i ddechrau mesur perfformiad ynghylch y gweithgarwch Ymchwil ac Arloesi.</p> <p>Ychwanegodd RP y byddai gweithgor Ymchwil ac Arloesi yn cael ei sefydlu i ddatblygu'r strategaeth ymhellach.</p> <p>Holodd DS am amserlen gwblhau ac ymatebodd RP gan nodi bod y gwaith yn cael ei lywio gan y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) sy'n cyfeirio at fis Medi 2022 fel dyddiad gorffen.</p> <p>Gofynnodd DS am eglurhad o'r cwmpas o fewn yr adran yn hytrach nag o fewn rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol o ran ble fydd y gwaith yn cael ei gynnal, yn enwedig o ran datblygu galluogrwydd ynghylch Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer arloesi data ac ysgogi gwerth o'r data a gesglir drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol (NDR).</p> <p>Cadarnhaodd RP y bydd yn ymdrech ar y cyd, a nododd y byddai adran gwasanaethau gwybodaeth (ISD) DHCW yn gwsmer data'r NDR ac yn gweithio ar y cyd tuag at yr un nodau. Ychwanegodd RP y byddai'r strategaeth Ymchwil ac Arloesi yn</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi

	<p>amlinellu hyn yn ffurfiol, a hefyd yn mynegi dull Cymru gyfan.</p> <p>Ychwanegodd RG fod angen adolygu'r term gwella gwasanaethau, sy'n wahanol i Ymchwil ac Arloesi, drwyddi draw ac y dylid archwilio cyfleoedd gyda'r gwasanaethau E-lyfrgell a chyhoeddi mwy ar-lein.</p> <p>Nododd RG hefyd yr angen am fecanwaith i flaenoriaethu'r gwaith ymchwil a buddsoddiadau a wnaed a bod angen nodi hyn yn benodol yn y strategaeth.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi Diweddariad y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi</p>		
3.4	<p>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> <p>Cyflwynodd CD y gofrestr risg gorfforaethol a nododd fod 16 o risgiau ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac roedd 13 ohonynt wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor, 5 ohonynt yn gyhoeddus, a'r 8 arall yn breifat oherwydd eu sensitifrwydd a dywedodd y byddai'r rhain yn cael eu derbyn yn sesiwn breifat cyfarfod y Pwyllgor.</p> <p>Nododd CD fod nifer o risgiau newydd wedi'u hychwanegu, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hadolygu yn y sesiwn breifat a dywedodd fod nifer o risgiau wedi'u dileu ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Atgoffodd CD y Pwyllgor am archwiliadau dwfn i feysydd risg: Roedd archwiliadau dwfn Diogelwch Gwybodaeth, Llywodraethu Gwybodaeth a Seilwaith wedi'u cynnal yn nhri chyfarfod diwethaf y Pwyllgor.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar swyddogaeth DHCW o ran yr addewid data a phryd y byddai datrysiad yn cael ei geisio gyda Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod aelod o'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi'i secondio i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r portffolio gwaith.</p> <p>Ychwanegodd DS y byddai diffyg datrysiad yn effeithio ar allu DHCW i gyflawni a holodd ynghylch yr amserlen ar gyfer datblygu'r addewid data.</p> <p>Ymatebodd Cora Suckley (CS), Rheolwr Gwasanaeth Swyddog Diogelu Data gan ddweud y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod mis Mai gyda rhaglen yr Anodd Data Cenedlaethol ar y ffrydiau gwaith Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas â'r risg a'r amserlenni hyn.</p> <p>Nododd CD nad oedd DHCW wedi derbyn ymateb eto i'w ohebiaeth ddiwethaf i Lywodraeth Cymru gan Gadeirydd y</p>	Trafodwyd	Addewid data – DL i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y Pwyllgor nesaf, y datrysiad posibl, a'r amserlenni i'w

	<p>Pwyllgor DG&S ynghylch yr addewid data. Byddai hyn yn cael ei gylchredeg ar ôl ei dderbyn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p>		hamlinellu.
3.5	<p>Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</p> <p>Cyflwynodd MS yr adroddiad a nododd fod un eitem o'r adroddiad a fyddai'n ymddangos ar yr agenda Breifat i'w thrafod yn ddiweddarach oherwydd ei natur sensitif.</p> <p>Nodwyd bod y tîm yn gweithio mwy ar ochr ddysgu'r agenda a'u bod wedi cytuno i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu. Roedd gweithgor wedi'i sefydlu dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol i flaenoriaethu hyn. Byddai gwaith y grŵp yn llywio'r adroddiad wrth symud ymlaen.</p> <p>Cyflwynodd Keith Reeves (KR), Rheolwr Tîm Rheoli Gwasanaethau y pwyntiau allweddol o'r adroddiad, a oedd yn cwmpasu cyfnod Chwarter 4 rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022, a thynnwyd sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dim digwyddiadau adrodd cenedlaethol • Roedd 11 o adolygiadau'n cael eu cynnal • Roedd cyfanswm o 27 o adolygiadau wedi'u cwblhau dros y flwyddyn • Derbyniwyd 5 pryder / cwyn, a oedd yn cael eu harchwilio gan y grŵp dysgu • yn ystod y flwyddyn ariannol, roedd 51 o argymhellion wedi'u gwneud, roedd 47 o'r rhain wedi'u gweithredu ar draws y sefydliad • Nid oedd 1 argymhelliad yn bodloni'r amser datrys targed; bydd gweithredu tudalen gwasanaethau gwybodaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd, a oedd bellach wedi'i gwblhau ac yn seiliedig ar adborth, yn llywio gwelliannau i'r broses reoli. <p>Cafwyd trafodaeth ar dueddiadau o fewn y data adrodd a mecanwaith i fonitro unrhyw newidiadau ar gyfer fersiynau'r adroddiad a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.</p> <p>Tynnodd RG sylw at y ffaith y byddai'r Pwyllgor yn awyddus i gael yr ymdeimlad o dueddiadau dysgu o fewn y Pwyllgor cyn gynted â phosibl er mwyn monitro sut y defnyddir gwasanaethau DHCW a sut roedd gwella gwasanaethau yn gweithredu.</p>	Nodwyd er Sicrwydd	Adroddiad ar Ddigwyddiadau a Dysgu Sefydliadol (IOLR) – Darparu Gwasanaethau; MS sut rydym yn myfyrio ar y paramedrau hyn fel y gall y pwyllgor gael gwell dealltwriaeth o'r data, mynd yn ôl i'r grŵp dysgu a thrafod sut rydym yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor fonitro

	<p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Drafod yr Adroddiad Adolygu Digwyddiadau a Dysgu Sefydliadol</p>		tueddiadau.
3.6	<p>Adroddiadau Sicrwydd</p> <p>I. Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth</p> <p>Cyflwynodd CS yr adroddiad gan nodi bod y canlynol wedi digwydd yn ystod y chwarter:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2 ddiweddariad • 3 Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs) wedi'u cwblhau, gyda 3 arall yn mynd rhagddynt • 2 ddigwyddiad, ond dim gofyniad i'w cefnogi'n allanol • 19 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOIs), aeth 1 heibio i'r amserlen ymateb, ac roedd hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal i sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol • Derbyniwyd 7 cais am fynediad at ddata gan y testun; ymatebwyd i'r rhain i gyd o fewn yr amserlenni statudol <p>Nodwyd bod y ddogfen i'r cyhoedd Eich Gwybodaeth, Eich Hawliau ar gael yn Gymraeg ac oherwydd gwyliau banc diweddar bu llawer llai o effaith ar y gwasanaeth Swyddog Diogelu Data (DPO).</p> <p>a. Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru</p> <p>Cyflwynodd CS y pecyn cymorth a nododd fod DHCW yn gyfrifol am ddau faes, yr un cyntaf yw cynhyrchu'r safonau a chreu'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo ac yn ail, cwblhau'r hunanasesiad i asesu safonau'r sefydliad yn erbyn y pecyn cymorth.</p> <p>Roedd 5 maes allweddol wedi'u nodi i DHCW ddatblygu ymhellach:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau templed hunan-asesu DPO • gwella'r cynllun Cyhoeddi – Nodwyd bod ymarfer mapio ar y gweill • Adolygu proses DHCW ar gwcis • adolygu gwybodaeth genedlaethol DHCW, a oedd bellach wedi'i chwblhau • Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) <p>Yn ogystal, nododd CS fod y tîm ar hyn o bryd yn adolygu ac yn edrych ar sut i ail-lunio hen becynnau cymorth o fewn y GIG yng Nghymru ac ehangu i becynnau cymorth cymunedol e.e. ar</p>	Nodwyd er Sicrwydd	Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth - CS i ddiweddarau'r adroddiad o ran dyddiadau ac os yw'r tîm ar y trywydd iawn.

	<p>gyfer fferyllfeydd a charchardai ac ati.</p> <p>II. Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg</p> <p>Cyflwynodd Paul Evans (PE), Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol Dros Dro yr adroddiad a nododd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 1 prosiect yn oren, gyda Rheolwr y prosiect yn absennol a oedd wedi gohirio'r diweddariad. • Yr oedd y broses o archebu brechlynnau bellach wedi'i chymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Roedd 5 adroddiad wedi'u cymeradwyo'n llawn gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol • Pàs Covid – Roedd hwn wedi'i gyflwyno i Grŵp Sicrwydd Gwybodeg Cymru (WIAG). Roedd rhai materion ôl-weithredol yn cael sylw felly disgwyliid hyn yn Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2022) <p>III. Adroddiad Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth</p> <p>Cyflwynodd RP yr adroddiad gan nodi'r prosiectau isod sydd wedi mynd drwy'r broses sicrwydd;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffurflenni Gwrthgeulo Trawsgrifio Meddyginiaethau ac E-ryddhau (MTeD) • Nodyn Ymgynghori ar Ddiabetes (Pediateg) • Termau Rhyngwyneb Rhaglennu Cymhwysiad (API) a reolir • WRRS FHIR Façade API • WAST TerraPACE ePCR <p>Hyd yma, roedd pum gwasanaeth Adran Gwasanaethau Gwybodaeth (ISD) wedi'u hadolygu a'u diweddarau a'r dogfennau gwasanaeth yn cael eu darparu i WIAG. Parhaodd ISD i gefnogi llawer o ffrydiau gwaith Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) COVID-19.</p> <p>Nodwyd bod achrediad Deddf yr Economi Ddigidol (DEA) wedi'i gyflawni o ran SAIL.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r adroddiadau er Sicrwydd.</p>		<p>Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg - PE i ychwanegu WIAG at y tabl acronymau.</p> <p>Adroddiad Sicrwydd Gwybodeg - PE i ychwanegu tabl at yr adroddiad o hyn ymlaen fel bod y pwyllgor yn gallu gweld blaengynllun gwaith y tîm i gael sicrwydd o ran capasiti ac ati.</p>
3.7	<p>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol</p> <p>Cyflwynodd MS yr adroddiad a nododd ei fod yn cofnodi cynnydd y rhaglenni a'r prosiectau ar ddiwedd mis Mawrth 2022 ac ers cytuno ar yr IMTP. Nodwyd mai'r prif weithgarwch oedd y canlynol:</p>	Nodwyd er Sicrwydd	

<p>Diweddarwyd rhaglen System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC) fel un sydd â dyddiad mynd yn fyw newydd y cytunwyd arno gydag Ymddiriedolaeth Felindre ar 14 Tachwedd ar gyfer disodli CaNISC. Oherwydd cwmpas, cymhlethdod ac ymgysylltiad â'r tîm clinigol, sydd wedi bod yn werthfawr ac yn effeithiol, datblygwyd cynllun diwygiedig.</p> <p>Roedd System Wybodaeth Cymru ar gyfer Rheoli Diabetes bellach yn wyrdd, gan fod cynllun diwygiedig ar waith ar ôl dargyfeirio adnoddau i weithio ar weithgarwch COVID a chanser newydd.</p> <p>Roedd System Rheoli Stoc Fferylliaeth Ysbytai Cymru wedi'i dileu gan fod y rhaglen bellach wedi'i gwasanaethu'n llawn ac wedi'i chefnogi gan y tîm cymwysiaidau.</p> <p>Cododd DS a oedd llywodraethu rhaglenni wedi'i sefydlu ar gyfer rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol yn dilyn unrhyw argymhellion a ddeilliodd o waith Gartner ynghylch symleiddio, strategaeth ddata a llywodraethu wedi'i drefnu. Ychwanegodd RG bwysigrwydd datblygu llwybr critigol a'r angen am fecanwaith o adrodd am ddiweddariadau gwaith i'r Pwyllgor.</p> <p>Nodwyd nad oedd diweddariad Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF) ar hyn o bryd ond roedd adolygiad ar gyllid canolog ar gyfer rhai o'r prosiectau a rhaglenni yn yr adroddiad a allai gael ei effeithio ar y gweill.</p> <p>Holodd DS am argaeledd adnoddau i gefnogi gwasanaethau digidol ar gyfer cleifion a'r cyhoedd (DSPP) gan nodi pwysigrwydd sicrhau adnoddau sgiliau digonol ar gyfer pontio'n fewnol.</p> <p>Nodwyd bod ap y claf yn datblygu'n gyflym, gyda'r angen am gydbwysedd o ran trosglwyddo adnoddau a gwybodaeth.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch recriwtio er mwyn sicrhau digon o gefnogaeth i'r portffolio mawr o waith, adroddiadau statws Coch Melyn Gwyrdd (RAG), rheolaeth dros y rhybuddion a chael mwy o oruchwyliaeth fel pwyllgor yn y maes hwn.</p> <p>Nododd MS fod y tîm yn mynd ar drywydd ac yn edrych ar adnoddau allanol, gan gynnwys ad-drefnu i ddarparu adnoddau i greu ystythder o fewn y broses hon.</p> <p>Ychwanegodd CD fod yr heriau sy'n wynebu'r gweithlu yn cael eu hadrodd i Fwrdd yr SHA ym mis Gorffennaf.</p>	<p>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol – Diweddariad ar raglen yr Adnodd Data Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor i gynnwys unrhyw argymhellion sy'n deillio o waith Gartner ar symleiddio, strategaeth ddata a llywodraethu wedi'i drefnu.</p> <p>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol – Diweddariad DPIF yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.</p> <p>Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol– CD i ychwanegu diweddariadau yr Adnodd Data Cenedlaethol a DPIF (fel uchod) at y Blaengynllun Gwaith i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ac i roi adborth ar unrhyw benderfyniadau posibl a wnaed ym Mwrdd yr SHA ym mis Gorffennaf ar</p>
---	--

	<p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Diweddariad ar Drosolwg y Rhaglen Ddigidol er Sicrwydd.</p>		heriau'r gweithlu.
3.8	<p>Hunaniaeth cleifion</p> <p>Cyflwynodd Rob Jones (RJ), Prif Bensaer drosolwg o'r pwnc a gynigiwyd gan Rhidian Hurle yn y cyfarfod cynllunio agenda uchod, a oedd yn ofyniad sylfaenol o ran deall sut i drin cleifion, gan dynnu sylw at bwysigrwydd dull cyson a fabwysiadwyd gan bob maes clinigol ym mhob rhan o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau ledled Cymru. Nodwyd y canlynol o'r adroddiad:</p> <p>1.1 Roedd DHCW a rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol wedi sefydlu map ffordd strategol ar gyfer Hunaniaeth a Demograffeg Cleifion. Nododd hwn set lefel uchel o amcanion a fyddai'n gwella ac yn cryfhau gwasanaethau Hunaniaeth a Demograffeg Cleifion i ddinasyddion sy'n derbyn iechyd a gofal yng Nghymru ac sy'n cyd-fynd ag argymhellion a wnaed yn Adolygiad o Bensaerniaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru.</p> <p>1.2 Drwy Gynllun Tymor Canolig Integredig DHCW ar gyfer 2022-23, roedd yr adnoddau, y cynlluniau a'r cyllid sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn cael eu nodi. Byddai'r ymarfer hwn yn cael ei gwblhau ar ddiwedd mis Mehefin 2022, a bydd cyflawni pob amcan i'w ddilyn yn unol â'r cynlluniau a ddogfennwyd</p> <p>Trafodwyd yr adroddiad, ac yn gyffredinol, eitemau megis cael cydamseriad gydag un system fynegai yn croesgyfeirio data yn y Mynegai Cleifion Meistr (MPI) a darparu barn gyfansawdd, sefydlu Rhyngwynebau Rhaglennu Rhaglenni (APIs) newydd ac o bosibl darpariaeth ar draws pob ystâd gan fabwysiadu safonau technegol a fyddai'n cael eu monitro wrth symud ymlaen fel y cynigiwyd yn yr adroddiad.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol: Nodi'r Adroddiad Hunaniaeth Cleifion er Sicrwydd.</p>	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi
RHAN 4 - MATERION I GLOI			
4.1	Unrhyw Faterion Brys Eraill	Nodwyd	Dim i'w nodi



	Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.		
4.2	Eitemau ar gyfer Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i'r Bwrdd Cadarnhaodd y Cadeirydd fod eitemau i'w cynnwys yn Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Cadeirydd i Fwrdd yr SHA wedi'u nodi'n ddigonol drwy gydol y cyfarfod.	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ar 4 Awst am 1.00pm.	Nodwyd	Dim i'w nodi

